

Presennol

Y Cyngorydd D Patel – Cadeirydd

SE Baldwin	TH Beedle	NA Burnett	HJ David
SK Dendy	J Gebbie	DG Howells	JE Lewis
JC Radcliffe	CE Smith	E Venables	SR Vidal
HM Williams	RE Young		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

KL Rowlands

Swyddogion:

Nicola Bunston	Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

93. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd Gareth Howells fuddiant personol yn eitem 5 gan fod cyfeiriad at strydoedd sydd o fewn ei ward.

Datganodd y Cyngorydd Nicole Burnett fuddiant rhagfarnllyd yn Eitem 5 gan fod ei rhieni'n byw yng Ngerddi Picton ac y byddai'n gadael y cyfarfod yn ystod yr eitem honno.

Datganodd y Cyngorydd Richard Young fuddiant personol yn Eitem 5 gan fod cyfeiriad at strydoedd sydd o fewn ei ward.

Datganodd y Cyngorydd Janice Lewis fuddiant personol yn Eitem 4 gan fod ei merch yng nghyfraith a'i gŵr ar fwrdd y llywodraethwyr.

94. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion 03 Rhagfyr 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir

95. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WAITH CYDRADDOLDEB O FEWN YSGOLION

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion, fel y'i monitrowyd gan ddefnyddio'r Ffurflen Adroddiad Digwyddiadau Hiliol.

Dywedodd fod pob ysgol wedi derbyn canllawiau adrodd am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion ym mis Mawrth 2019, ac roedd y canllawiau'n cynnwys hysbysu'r awdurdod lleol am ddigwyddiadau hiliol yn ogystal â hysbysu'r heddlu a allai gofnodi digwyddiadau fel troseddau casineb. I wneud hyn, darparwyd Ffurflen Adrodd Digwyddiadau Hiliol wedi'i diweddarau i ysgolion i'w llenwi lle bo angen.

Darparodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu ffigurau'r achosion a gofnodwyd yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-2021, pan welwyd cyfanswm o 10 ar draws 5 ysgol wahanol. Mae'r math o ddigwyddiadau a gofnodwyd i'w gweld yn adran

4.1.1 o'r adroddiad, a rhestrir oedran y cyflawnwyr ac oedran y dioddefwyr yn 4.1.2. Rhestrwyd dadansoddiad pellach o ryw a'r ystod o ymyriadau sy'n digwydd yn adran 4 o'r adroddiad. Ychwanegodd bod prosiect arfaethedig Troseddau Casineb mewn Ysgolion wedi'i ohirio oherwydd y pandemig Covid-19, ac roedd CLILC mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o ymestyn y cyllid a ddyrannwyd y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio at ei yrfa flaenorol fel athro, a dywedodd fod hiliaeth achlysurol yn fwy cyffredin bryd hynny, hyd yn oed mewn llysenwau plant, felly roedd yn galonogol clywed bod cynnydd wedi'i wneud ers hynny. Fodd bynnag, mae hiliaeth, boed yn fwriadol neu ddim, yn dal i ddigwydd, ac mae pawb â'r gallu i fod yn hiliol. Gofynnodd a oedd rhieni'n cael gwybod am bethau a adroddir am eu plant, fel mater o rybudd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod rhieni'n cael gwybod am y materion hyn. Roedd hefyd yn ofynnol i'r Ysgolion hysbysu'r awdurdod lleol yn flynyddol.

Gofynnodd Aelod a oedd ffordd o wneud y ffurflenni a gyflwynwyd yn ddiennw, fel bo modd i'w Pwyllgor eu delweddu a chael gwell dealltwriaeth. Eglurodd fod llawer o bobl yn defnyddio'r geiriau 'gay' neu 'queer' fel ffordd o alw enwau, yn ogystal â llawer o eiriau eraill, heb iddynt gario'r un ystyr, felly byddai gallu delweddu'r gŵyn yn ei chyfarwydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o sut mae'r geiriau hyn yn cael eu defnyddio. Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu y byddai adolygiad o sut yr edrychir ar adroddiadau am achosion mewn ysgolion yn rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod canllawiau wedi'u cyhoeddi gan ESTYN a Llywodraeth Cymru a oedd yn sefydlu protocolau ar sut y dylai ysgolion adrodd am fwlio, ac y byddai'n ei gylchredeg i bob aelod yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â'r cyllid ar gyfer prosiectau troseddau casineb a grybwyllir yn yr adroddiad, pe bai'r cyllid yn dod i law, sut y byddai'r awdurdod yn gwneud y gwaith.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod yn rhaid i'r gwaith fod yn gynaliadwy ac, er bod yr awdurdod yn dibynnu ar gyllid o'r gwaith rhagorol a wnaed gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a'r prosiect troseddau casineb, roedd elfennau allweddol eisoes yn cael eu gwneud gydag ysgolion sy'n ategu gwaith y mentrau a grybwyllir uchod. Roedd y gwaith yn deillio o ddull amlasiantaethol gydag amrywiaeth o wahanol rannau, er enghraifft; tîm addysg ac ymgysylltu sy'n gweithio'n agos gydag ysgolion i'w cynghori a'u harwain ar y materion hyn; timau cymorth cynnar sy'n gweithio gydag ysgolion yn ogystal â'r rhieni i gefnogi'r ymddygiadau cywir a ddisgwyliid; tîm cyfathrebu a pherthnasoedd sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ymddygiadol ac emosiynol penodol. Cefnogwyd y timau hyn gan y cyllid sydd ar gael yn bresennol.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu ffigurau pellach yn y dyfodol ar achosion a oedd yn ymwneud â rhyw yn benodol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai ffigurau ychwanegol wrth adrodd yn y dyfodol yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r materion a'n ei gwneud yn haws i ymdrin â hwy'n effeithiol. Roedd gan CBSP bolisiâu a gweithdrefnau cadarn ar waith a'r nod oedd cyrraedd pwynt lle na cheir unrhyw achosion.

Gofynnodd yr Arweinydd a allai adroddiadau yn y dyfodol ddarparu ffigurau ar y nifer sy'n manteisio ar y gwaith o godi ymwybyddiaeth a'r hyfforddiant a gynigir, er mwyn i ni ddeall maint hynny ac i wybod a oes angen i ni wneud mwy fel awdurdod.

Mynegodd y Cadeirydd siom fod achosion o fwlio yn dal i gael eu hadrodd er bod ysgolion wedi'u cau am gyfran fawr o'r flwyddyn academaidd oherwydd y pandemig. Credai ei bod yn bwysig derbyn yr adroddiad hwn yn aml.

PENDERFYNIAD: Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi derbyn a nodi'r adroddiad.

96. **Y DEFNYDD O'R ENW PICTON MEWN ENWAU STRYDOEDD AC ADEILADAU LEDLED BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR - ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraaf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet o ran y wybodaeth a gafwyd a'r ymchwil a wnaed ynglŷn â'r defnydd o'r enw Picton mewn enwau strydoedd ac adeiladau ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Darparodd ffigurau a oedd yn amlinellu nifer y strydoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a oedd wedi defnyddio'r enw 'Picton', a oedd wedi'i rannu'n 4 ardal; Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Mynydd Cynffig a Nantyllyfion, roedd y ffigurau hyn yn adran 4 o'r adroddiad.

Dywedodd fod Archifau Morgannwg wedi'u comisiynu i wneud gwaith ymchwil ar ran y cyngor. Cytunwyd y byddai Archifau Morgannwg yn cynnal hyd at 100 awr o ymchwil, ond oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn sgil Covid-19, cyfanswm o 50 awr a 35 munud o ymchwil a gyflawnwyd. Roedd yr adroddiad gan Archifau Morgannwg ynghlwm yn Atodiad 1, a'r casgliad i'w gael yn adran 4.3 o'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, ar wahân i'r adroddiad a dderbyniwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, na chafwyd unrhyw wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru o ran yr Archwiliad a gynhaliwyd ganddynt, felly nid oeddent yn ymwybodol o'u camau nesaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod yr adroddiad yn amlygu pa mor anodd y gall fod i ganfod union darddiad enwau strydoedd Pen-y-bont ar Ogwr, a diolchodd i bawb a oedd yn ymwneud â thynnu'r wybodaeth at ei gilydd o fewn amserlen fer.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod yr ymarfer o ymchwilio i darddiad enwau strydoedd o fudd wrth i ni ddeall a chofio yn ogystal ag ail-ddysgu pethau a aeth yn angof. Ychwanegodd y gallai fod angen polisi yn y dyfodol i atal enwi strydoedd ar ôl rhai pobl, ac i ehangu cwrpas yr enwau y gellid eu defnyddio. Credai na ddylid caniatáu i ddatblygwyr tai enwi strydoedd, a dylai'r hawl gael ei rannu rhwng y Cyngor a'r Cyngorau Tref a Chymuned.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a diolchodd i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o ganfod gwybodaeth. Dywedodd ei bod yn briodol i aros i Lywodraeth Cymru gymryd y camau nesaf ar y mater.

Gofynnodd Aelod a oedd gan CBSP Bolisi Cydraddoldeb Hiliol, gan y byddai hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth a'n cynnig cysondeb ar draws y fwrdeistref, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector, ac yn help i ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd. Gofynnodd hefyd sut beth oedd yr ymgysylltu a wneir mewn ysgolion o ran hanes pobl ddu, gan y byddai hyn yn gwella dealltwriaeth ac o bosibl yn help wrth enwi strydoedd.

Croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd yr awgrym a chytunodd i'w godi gyda Phenaethiaid yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu fod gan CBSP Gynllun Cydraddoldeb Strategol a oedd yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig. Roedd CBSP hefyd wedi ymrwymo i'r polisi dim goddefgarwch i ddileu gwahaniaethu ar sail hil ledled Cymru. Gofynnodd yr Aelod a allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gysylltu â'r Swyddog Lles Addysg gan ei bod yn gwneud darn o waith ar Hanes Pobl Ddu mewn perthynas â'r cwricwlwm.

PENDERFYNIAD:

Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad diweddar a'r adroddiad ymchwil gan Archifau Morgannwg, a'u bod yn disgwyl y camau nesaf gan Archwiliad Llywodraeth Cymru.

97. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2019 - 2020

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a gwblhawyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) 2016 - 2020 ar gyfer y cyfnod 2019 - 2020.

Nod y SEP oedd:

- monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb strategol;
- adolygu ei amcanion a'i brosesau gan ystyried unrhyw ddeddfwriaeth newydd a datblygiadau newydd eraill;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch amcanion cydraddoldeb, gan ddarparu tryloywder;
- cynnwys diweddariadau perthnasol ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, trefniadau caffael, a hyfforddiant.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu fod yr adroddiad blynyddol (Atodiad 1) yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar wefan y cyngor/sicrhau ei fod ar gael erbyn 1 Ebrill 2021. Amlinellodd bwyntiau allweddol yr adroddiad fel y'i rhestrir yn adran 4.3 o'r adroddiad. Ychwanegodd fod gwybodaeth bellach yn yr Atodiad, gwybodaeth fel;

- ymgynghori a chysylltu
- gwybodaeth am y gweithlu
- gwybodaeth am ryw a graddau cyflog
- ceisiadau am swyddi
- hyfforddi staff
- manylion gweithwyr a oedd wedi gadael y Cyngor

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i'r tîm a fu'n gweithio ar yr adroddiad ac roedd yn edrych ymlaen at adroddiadau cynnydd pellach. Soniodd fod y Cyngor, o edrych ar ddemograffeg y gweithlu presennol, yn elwa'n fawr o gael aelodau staff profiadol a oedd wedi bod yn y Cyngor ers nifer o flynyddoedd, ond bod yr aelodau staff hyn yn hŷn ac y gallent ymddeol. Gofynnodd pa gynlluniau sydd o ran rheoli olyniaeth.

Cytunodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod cynllunio olyniaeth yn bwysig, ac mae gweithwyr wedi derbyn cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau eu hunain yn ogystal â hyfforddi staff newydd a throsglwyddo eu harbenigedd. Ychwanegodd fod rhaglenni datblygiad proffesiynol hefyd ar gael i alluogi staff presennol i ennill cymwysterau cydnabyddedig ac i agor drysau i'w hunain. Ychwanegodd fod cynlluniau prentisiaeth ar gael hefyd, a'u bod yn cael eu hehangu bob blwyddyn i ganiatáu ar gyfer hyfforddiant mewn swydd a chymwysterau cydnabyddedig mewn amrywiaeth o feysydd. Roedd cynlluniau hefyd ar gyfer rhaglenni graddedigion a chynlluniau secondio gwaith cymdeithasol.

Gofynnodd Aelod pa ddulliau dysgu anffurfiol y gellid eu darparu i'r holl staff er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatblygu mewn ffyrdd ychwanegol.

Cytunodd Rheolwr y Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod pob math o ddysgu yn angenrheidiol ac yn fuddiol. Eglurodd fod sesiynau un i un gyda rheolwyr ac arfarniadau yn gyfleoedd da i staff drafod eu hanghenion dysgu a'u datblygiad personol. Ychwanegodd fod aelod o'i thîm yn y cyfarfod heddiw er mwyn arsylwi ar sut y rhedir pwyllgor a sut y defnyddir y gwaith yr oedd hi wedi'i ddarparu mewn pwyllgor, a bod hyn yn ffordd dda o roi profiad i staff. Ychwanegodd fod dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn cael ei gynnal a'i fod yn llywio'r ddarpariaeth hyfforddiant corfforaethol, ac roedd hyn yn cael ei drafod gyda rheolwyr. Ychwanegodd fod hyfforddiant i reolwyr ar gael yn ffurfiol yn ogystal ag yn anffurfiol drwy eu galluogi i roi cynnig ar amrywiaeth o raglenni a oedd yn fuddiol neu'n ennyn eu diddordeb.

PENDERFYNIAD:

Bod y Pwyllgor wedi nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac wedi cymeradwyo Adroddiad Blynnyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019-2020.

98. **ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 A SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Dywedodd na chafwyd unrhyw gwynion newydd ers yr adroddiad diwethaf am sut y mae CBSP yn defnyddio'r Gymraeg, ac na fu unrhyw gwynion i'w datrys eisoes. Roedd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn falch o weld nad oedd cwynion heb eu bodloni nac ychwaith unrhyw gwynion newydd.

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, er nad oedd unrhyw achosion i'w hadrodd, ei bod yn bwysig parhau i adrodd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

PENDERFYNIAD:

Bod y pwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

99. **BLAENRAGLEN WAITH 2021-2022**

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2021–2022.

Esboniodd fod Atodiad 1 yn nodi'r cynnig i ystyried eitemau busnes rheolaidd y pwyllgor a materion cydraddoldeb allweddol rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022. Roedd y cynnig yn seiliedig ar:

- yr amcanion cydraddoldeb strategol yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024, fel gwella cysylltiadau cymunedol yn y fwrdeistref sirol;
- yr ymgynghoriad ar yr amcanion drafft ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024;
- monitro parhaus y gwaith o weithredu Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau gwasanaeth;
- awgrymiadau gan y pwyllgor;

- materion cydraddoldeb cenedlaethol a lleol;
- trefniadau adrodd sefydledig ar gyfer Safonau'r Gymraeg a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- ystyriaeth i flaenoriaethau eraill y cyngor ac adroddiadau allanol.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar am eglurhad ar eitem ar gyfer mis Mawrth 2022 – Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – Blwyddyn i ffwrdd, ond ni allai weld unrhyw gynlluniau ar gyfer yr eitem hon cyn y dyddiad hwnnw. Credai y byddai hyn yn dod yn fwyfwy pwysig ac roedd o'r farn y dylid ei roi gerbron Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet i egluro beth ydoedd a sut y byddai'n effeithio ar y Cyngor.

Eglurodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu y gellid ychwanegu adroddiad ar hyn at y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021. Ychwanegodd y byddai adroddiad a oedd yn amlinellu pynciau blaenorol a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn ddefnyddiol i sicrhau bod amrywiaeth o bynciau'n cael eu trafod yn ogystal â chyflwyno adroddiadau gloywi ar bynciau'r gorffennol.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu adroddiad diweddar yn manylu ar y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein, er mwyn helpu'r pwyllgor i ddeall agweddau staff tuag at bwysigrwydd yr hyfforddiant.

Gofynnodd yr Arweinydd a ellid darparu adroddiad ar effeithiau Covid-19 a'r pandemig ar anghydraddoldebau, gan fod pryder y gallai rhai o'r anghydraddoldebau waethygu. Pe bai hyn yn wir, ychwanegodd, efallai y bydd y pwyllgor am ymateb i hyn.

Holodd y Rheolwr Ymgynghori, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu a oedd y pwyllgor yn dymuno gweld yr eitem Gwaith Cydraddoldeb mewn Ysgolion fel adroddiad blynyddol, neu yn ôl yr angen. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n well ganddi weld yr adroddiad bob blwyddyn neu bob chwe mis, a hynny gan fod yr eitem wedi ennyn llawer o ddiddordeb,. Cytunodd y pwyllgor y byddai'n addas cael adroddiad blynyddol sy'n dechrau ym mis Tachwedd, i gwmpasu'r flwyddyn academiaidd, ac yna adroddiadau yn ôl yr angen wedyn.

PENDERFYNIAD:

Bod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet wedi cymeradwyo Blaenraglen Waith arfaethedig 2021-2022 yn amodol ar y gwelliannau a restrir uchod.

100. EITEMAU BRYD

Dim